ATODLEN 1

RHEOLIADAU A DDIRYMIR

# RHAN 2

## Arbedion a darpariaethau trosiannol cyffredinol

**Achos disgyblu**

**3.** Er gwaethaf dirymu Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Disgyblu) 2001(**1**) ("Rheoliadau 2001")—

(a) mae person sy'n destun achos disgyblu yn union cyn 1 Ebrill 2015 yn unol â Rheoliadau 2001 i gael ei drin fel pe bai yn destun achos disgyblu yn unol â Rhan 5 o'r Rheoliadau hyn; a

(b) mae unrhyw orchymyn disgyblu a wnaed yn unol â Rheoliadau 2001 ac sydd mewn grym yn union cyn 1 Ebrill 2015 i barhau i gael effaith fel pe bai wedi ei wneud yn unol â Rhan 5 o'r Rheoliadau hyn.

(**1**) O.S. 2001/1424 (Cy. 99).